# EVANS, DAVID DAVIES (1787 - 1858), Pontrhydyrynn, gweinidog y Bedyddwyr, a golygydd

**Enw:** David Davies Evans
**Dyddiad geni:** 1787
**Dyddiad marw:** 1858
**Rhiant:** David Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog y Bedyddwyr, a golygydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** William Joseph Rhys

Ganwyd 27 Mawrth 1787, yn Dolgoch, Sir Aberteifi. Magwyd ef ym Maesyberllan, eglwys ei dad, David Evans. Dechreuodd bregethu 21 Ionawr 1807, a bu 18 mis yng Ngholeg y Fenni. Derbyniodd alwad o'r Tabernacl, Caerfyrddin, i olynu Titus Lewis; ordeiniwyd ef ym Maesyberllan cyn mynd yno, a sefydlwyd 25 Mawrth 1812. Cliriodd ddyled yr addoldy newydd yno drachefn. Pregethai yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac fe'i cyfrifid yn un o arweinwyr doethaf yr enwad. Oblegid gwendid ymddeolodd yn 1857, gan fyned i Gaerdydd. Symudodd ymhen chwe mis drachefn i Gaerfyrddin. Wedi ei farwolaeth ar 29 Awst 1858 fe'i claddwyd ym Mhontrhydyrynn. Oblegid dadfeiliad iechyd trosglwyddodd Joseph Harris *Seren Gomer* a'i golygyddiaeth yn Ebrill 1825 iddo ef; eithr yn 1834 rhoes yntau ei golygyddiaeth i'w gynorthwywr Samuel Evans. Gwelid ei gynhyrchion yn y cyfnodolion, ac efe a ysgrifennodd ' Adnoddau Cymru ' yn *Yr Adolygydd*, a rhan o fywgraffiad John Williams, Trosnant.

## Awdur

**Y Parchedig William Joseph Rhys**, (1880 - 1967)

## Ffynonellau


*Seren Gomer*, 1858, 478

J. Rufus Williams, *Hanes Athrofeydd y Bedyddwyr yn Sir Fynwy yn nghyd â byr grybwylliad am athrofeydd Hwlffordd a Llangollen* (Aberdâr 1863), 34


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732799


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu